# Adroddiad Gwrthwynebu:
# Y cynnig i adeiladu ysgol ardal newydd ar safle newydd yn Nyffryn Aeron a chau
# Ysgol Gynradd Ciliau Parc
# ac
# Ysgol Gynradd Dihewyd
# ac
# Ysgol Gynradd Felinfach

O dan Adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o’r holl wrthwynebiadau statudol ac ymatebion y cynigydd i’r gwrthwynebiadau hynny.

| Cyfanswm y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd:11 |
|---|

| 1.Gwrthwynebiad | Ymateb y Gwasanaeth Ysgolion |
|---|---|
| Gwrthwynebu adeiladu ysgol newydd ar gampws Felinfach. | Mae’r Cabinet wedi diystyru’r opsiwn o adeiladu ysgol ar gampws Felinfach, fodd bynnag, oherwydd canllawiau Llywodraeth Cymru o ran trefniadaeth ysgolion, roedd yn rhaid cynnwys yr opsiwn yn y ddogfen ymgynghori. |
| Yn cefnogi ysgol ardal newydd cyhyd â bod ganddi ddigon o gapasiti. | Y bwriad yw adeiladu ysgol newydd ar safle newydd gyda chapasiti ar gyfer 210 o ddisgyblion llawn amser, ac yn seiliedig ar y nifer presennol o ddisgyblion dylai hyn gynnig oddeutu 30% o gapasiti dros ben. |
| Pryder na fydd adeilad ysgol Ciliau Parc yn cael ei gynnal ac y bydd y ddarpariaeth addysg yn dioddef o ganlyniad. | Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, dyrannwyd dros £10,000 i’r ysgol er mwyn ymgymryd â gwaith atgyweirio a gwaith cynnal a chadw ar yr adeilad, ac roedd yr arian hwn yn ychwanegol at y gyllideb a ddyrannwyd i’r ysgol. |

| 2.Gwrthwynebiad | Ymateb y Gwasanaeth Ysgolion |
|---|---|
| Ni chynhwyswyd unrhyw wybodaeth ynghylch y lleoliad arfaethedig, ac mae’n debyg bod yr opsiwn i leoli’r ysgol ar gampws Felinfach yn parhau oherwydd bod hyn wedi’i gynnwys yn yr holl ddogfennau. | Ni ellir prynu tir er mwyn adeiladu ysgol newydd cyn i’r Cyngor llawn gytuno ar y cynnig.<br>Mae’r Cabinet wedi diystyru’r opsiwn o adeiladu ysgol |

| | |
|---|---|
| | newydd ar gampws Felinfach, fodd bynnag, oherwydd canllawiau Llywodraeth Cymru o ran trefniadaeth ysgolion, roedd yn rhaid cynnwys yr opsiwn yn y ddogfen ymgynghori. |
| Yn drist i weld ysgol fach yn cau ac yn cael ei disodli gan ysgol ardal fawr. | Mae Llywodraeth Cymru wedi categoreiddio pob ysgol ardal yng Ngheredigion yn ysgolion gwledig. Yn 2018, y cyfartaledd o ran y gymhareb athro/disgybl yng Ngheredigion oedd 19.2 o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan, sef 22. |
| Mae'r broses ymgynghori wedi bod yn ddryslyd. | Mae'n rhaid i'r broses gydymffurfio â gofynion 'Cod Trefniadaeth Ysgolion' Llywodraeth Cymru. |
| 3.Gwrthwynebiad | Ymateb y Gwasanaeth Ysgolion |
| Mae'r broses ymgynghori wedi bod yn ddryslyd, ac ychydig iawn o wybodaeth a roddwyd ynghylch y lleoliad a ph'un a fydd yr ysgol yn adeilad newydd. Pryder dros ddefnyddio safle Theatr Felinfach. | Mae'n rhaid i'r broses gydymffurfio â gofynion 'Cod Trefniadaeth Ysgolion' Llywodraeth Cymru.<br>Hyd nes y cymeradwyir y cynnig gan y Cyngor llawn, ni ellir lleoli na phrynu safle addas.<br>Y bwriad yw adeiladu ysgol newydd ac nid adnewyddu safle Theatr Felinfach. |
| Os cymeradwyir y cynnig, a yw'r ysgol yn debygol o fod yn barod erbyn mis Medi 2022? | Amcangyfrifir mai 15 mis yw'r amser sydd ei angen i adeiladu ysgol o'r fath, felly rydym yn hyderus y bydd yr ysgol wedi'i chwblhau o fewn blwyddyn academaidd 2022-23. |
| Dylai iechyd a diogelwch ar y ffordd y tu allan i ysgol Ciliau Parc fod yn flaenoriaeth - dylid cyflwyno terfyn cyflymder is, croesfan sebra, goleuadau traffig neu berson lolipop. | Mae'r Awdurdod Lleol yn adolygu terfynau cyflymder bob dwy flynedd, fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ariannol hon mae Llywodraeth Cymru yn adolygu terfynau cyflymder cenedlaethol mewn ardaloedd |

| | |
|---|---|
| | sydd â goleuadau stryd. Os cymeradwyir y cynnig, cyflwynir terfyn cyflymder 20mya ar y B4339 wrth yr ysgol, ond ni fyddai hyn yn effeithio'r A482.<br><br>Mae croesfannau i gerddwyr yn cael eu hystyried i fod yn fesurau lliniaru traffig, fodd bynnag, er mwyn eu cyflwyno mae meini prawf llym o ran llif y cerddwyr a'r cerbydau, ac nid oes gan yr ardal dan sylw y lefelau gofynnol. |
| I nifer o blant, bydd yr ysgol ardal newydd yn barod ar ddiwedd eu cyfnod mewn addysg gynradd. | Pryd bynnag y caiff ysgol newydd ei hadeiladu, oherwydd yr amser a gymerir i gwblhau'r gwaith, bydd rhai disgyblion wedi symud i'r ysgol uwchradd. Bydd y disgyblion sydd ym mlwyddyn 3 ac o dan ar hyn o bryd yn elwa o'r cyfleusterau newydd. |
| Ni fuddsoddwyd digon o arian, ac mae'r ysgol wedi colli athro llawn amser a nifer o staff cynorthwyol. | Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, dyrannwyd dros £10,000 i'r ysgol ymgymryd â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw adeilad yr ysgol. Mae'r arian hwn yn ychwanegol at yr arian a gaiff ei ddyrannu bob blwyddyn yn rhan o gyllideb yr ysgol.<br>Pan roedd nifer y disgyblion ar ei uchaf ym mis Ionawr 2018 gyda 79 disgybl, penderfynodd yr ysgol gyflogi athro ychwanegol ar gontract dros dro er mwyn gweithredu pedwerydd dosbarth. Roedd yr ysgol yn gallu gwneud hyn oherwydd roedd gan yr ysgol lefel uchel o gronfeydd wrth gefn ar y pryd. Ar ôl i nifer y disgyblion gwympo a'r cronfeydd wrth gefn ostwng, nid oedd bellach sail resymegol dros weithredu pedwerydd |

| | |
|---|---|
| | dosbarth a phenderfynodd yr ysgol ddefnyddio strwythur tri dosbarth unwaith eto ym mis Medi 2019 gan mai dyma beth sydd i'w ddisgwyl ar gyfer ysgol o'r maint hwnnw. O ganlyniad i hyn, collwyd y swydd addysgu dros dro. |
| Beth fydd yn digwydd os nad yw'r ysgol yn barod erbyn mis Medi 2022? A fydd y disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau symudol? | Ni fydd y disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau symudol. Pe canfyddir na fydd yr ysgol yn barod i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23, bydd y disgyblion yn aros yn eu hysgolion presennol nes y bydd yr ysgol newydd yn barod. |
| Ystyrir bod sylw a wnaed gan 'gynrychiolydd o'r awdurdod' mewn cyfarfod yn NhyGlyn yn fygythiol oherwydd datganodd y byddai'r ysgol yn cau hyd yn oed pe na bai'r cynnig o adeiladu ysgol newydd yn cael ei gefnogi. | Nid oedd y cyfarfod a gynhaliwyd yn NhyGlyn wedi'i drefnu gan yr Awdurdod Lleol, nid oedd yr Awdurdod Lleol yn gwybod amdano, ac nid oedd un o weithwyr yr Awdurdod Lleol yn bresennol.<br>Ni ellir felly gwneud sylw ar y neges 'fygythiol' a roddwyd. |
| 4.Gwrthwynebiad | Ymateb y Gwasanaeth Ysgolion |
| Mae'r Cyngor wedi achosi gormod o ansicrwydd ers 2016, gan roi ond ychydig fisoedd i rieni gynnig opsiwn ymarferol. | Yn 2016, ar ôl cynnal cyfarfodydd gyda'r holl rieni, staff a llywodraethwyr, y farn gyffredin oedd y dylid ystyried yr ardal ar gyfer ysgol newydd. Cadarnhaodd yr Aelodau Lleol eu bod yn cefnogi ysgol ardal newydd ac felly gohiriodd y Cabinet y penderfyniad hyd nes y cytunwyd mewn egwyddor ar arian Band B er mwyn gallu adeiladu ysgol newydd ar safle newydd. |
| Erbyn i'r ysgol newydd agor, bydd cenhedlaeth gyfan o blant wedi cael cam o safbwynt addysg ar ôl dioddef 6 blynedd o ansicrwydd. | Nid yw'r Awdurdod yn cytuno â'r datganiad bod addysg disgyblion wedi dioddef o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Derbyniodd y tair ysgol ddyfarniadau 'da' ym mhob |

| | |
|---|---|
| | categori yn ystod arolwg diwethaf Estyn. Nid yw ansawdd na safonau'r addysg wedi'u heffeithio, ac nid ydynt yn destun pryder. |
| Nid yw amserlen arfaethedig y Cyngor yn realistig oherwydd ni ellir prynu'r tir hyd nes y bydd y Cyngor wedi cymeradwyo'r cynnig. | Ni ellir prynu tir er mwyn adeiladu ysgol newydd hyd nes y bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig. Credir bod yr amserlen arfaethedig yn realistig gan mai 15 mis yw'r amser a amcangyfrifir fydd ei angen i gwblhau'r gwaith adeiladu. |
| Beth fydd yn digwydd os nad yw'r ysgol newydd yn barod? | Bydd disgyblion yn aros yn eu hysgolion presennol hyd nes y bydd yr ysgol newydd yn barod. |
| Mae'r gymuned ar ddeall bod y Cyngor eisoes yn bwriadu datblygu safle Theatr Felinfach er mai dyma'r opsiwn y mae'r rhan fwyaf o rieni yn ei wrthwynebu fwyaf. | Diystyrwyd safle Theatr Felinfach fel datblygiad addas. |
| 5.Gwrthwynebiad | Ymateb y Gwasanaeth Ysgolion |
| Ymddengys nad oes lleoliad penodol ar gyfer yr ysgol arfaethedig, nid yw'r amserlen yn realistig ac ni ddarparwyd unrhyw fanylion ynghylch y gyllideb. | Ni ellir cadarnhau'r lleoliad oherwydd nid yw'r tir wedi'i brynu.<br>Mae'r amserlen yn realistig ac fe'i lluniwyd yn ofalus gan arbenigwyr ym maes adeiladu a chyflawni prosiectau tebyg.<br>Roedd manylion ynghylch y gyllideb wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori yn Adran 9 – Gwybodaeth Ariannol. |
| Y neges sydd wedi'i chyfleu dro ar ôl tro yw os na chefnogir y cynnig i gau ysgol Ciliau Parc, ni fydd yr opsiwn o gael ysgol newydd yn parhau. | Nid yw'r neges hon wedi'i chyfleu gan swyddogion yr Awdurdod Lleol ac nid yw wedi'i chynnwys yn unrhyw un o'r dogfennau. |
| Er gwaethaf dros 3 blynedd o ymghyngori, ni chyflwynwyd unrhyw gynnig pendant – mae hyn gyfystyr â bwlio. | Dechreuodd yr ymarfer ymgynghori ym mis Chwefror 2019 pan roddwyd cyfle i |

| | |
|---|---|
| | randdeiliaid gyflwyno opsiynau neu gynnig sylwadau ar y cynnig i greu ysgol ardal newydd ar safle newydd yn Nyffryn Aeron. Ceir manylion ynghylch y cynnig ar flaen yr holl ddogfennau a hefyd yng nghorff y ddogfen ymgynghori. |
| Mae cau'r ysgol cyn bod gan y Cyngor syniad o beth fydd yn ei disodli yn gwneud cam â'r disgyblion. | Rhennir manylion ynghylch yr union leoliad a'r ddarpariaeth unwaith y bydd y cynnig wedi'i gymeradwyo ac unwaith y prynir tir addas. Yna bydd cynlluniau manwl yn cael eu datblygu a'u rhannu â'r ysgolion dan sylw. |
| Mae'r ysgol yn cael ei thanariannu'n ddifrifol, ac ymddengys bod hyn yn ymgais fwriadol i gyfiawnhau cael ysgol newydd. | Mae fformiwlâu'r Awdurdod ar gyfer ariannu ysgolion yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws holl ysgolion y sir. Ariennir pob ysgol yn unol â'r un meini prawf. Dim ond oherwydd ffactorau penodol mewn ysgol mewn unrhyw flwyddyn benodol y bydd amrywiadau. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys nifer y disgyblion, hawl i brydau ysgol am ddim ac anghenion dysgu ychwanegol. |
| Byddai cau'r ysgol yn niweidiol i'r gymuned. Bydd perygl hefyd i neuadd y gymuned gau oherwydd bod y rhan fwyaf o incwm y neuadd yn dod o weithgarwch yr ysgol. | Mae'r Awdurdod yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae'r ysgol a'r staff yn ei wneud i'r ardal.<br>Nodir y sylw. |
| 6.Gwrthwynebiad | Ymateb y Gwasanaeth Ysgolion |
| Mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu nad oes diben gwrthwynebu'r cynnig oherwydd bod y Cyngor wedi gwneud ei benderfyniad eisoes. | Mae'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn. Yn ogystal ag ymgynghoriad anffurfiol ac ymgynghoriad statudol, cynhaliwyd sesiwn galw heibio lle'r oedd swyddogion y Cyngor yn bresennol i drafod y cynnig, ac estynnwyd gwahoddiad i rieni, staff a llywodraethwyr fod yn bresennol. |

| | |
|---|---|
| Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yn nodi bod 'Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl' yn un o'i flaenoriaethau – y plant yw'r dyfodol. Mae'r holl dystiolaeth yn dangos bod plant yn perfformio'n well mewn ysgolion llai. | Er mwyn cyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol, rydym yn parhau â'r rhaglen Rhesymoli Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac mae adeiladu ysgol newydd yn Nyffryn Aeron yn un o'r blaenoriaethau. Mae tystiolaeth yn dangos bod cyrhaeddiad plant yn dda pan fo'r addysgu, y dysgu a'r arweinyddiaeth yn gyson gryf.<br>Nid oherwydd bod pryder ynghylch perfformiad disgyblion y mae'r ysgol ardal newydd yn cael ei chynnig. |
| Byddai cau ysgol fach wledig yn cael effaith andwyol ar y gymuned a byddai angen darparu cludiant i ysgol ardal. | Mae'r Awdurdod yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae ysgolion bach gwledig yn ei wneud i bob cymuned. Cydnabyddir hefyd y bydd yn rhaid darparu cludiant i'r ysgol yn unol â pholisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol. |
| Mae gwaith ymchwil yn dangos bod dosbarthiadau bychain gydag oedrannau cymysg yn well i ddisgyblion. | Cwblhawyd llawer o waith ymchwil ar effaith maint dosbarthiadau, ac mae nifer o ganlyniadau'n gwrth-ddweud ei gilydd. Dyma ddyfyniad gan Andreas Schleicher, Cyfarwyddwr Addysg a Sgiliau a Chynghorydd Arbennig ar Bolisïau Addysg i Ysgrifennydd Cyffredinol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a ddaeth i'r casgliad canlynol: "*Everywhere, teachers, parents and policy-makers favour small classes as the key to better and more personalised education… and yet, Pisa results show no relationship between class size* |

| | |
|---|---|
| Cymhelliant ariannol sydd y tu ôl i gau ysgolion bach gwledig gan fod y gost fesul disgybl mewn nifer o ysgolion bach ond ychydig yn fwy na'r gost mewn ysgolion mwy o faint. | *and learning outcomes, neither within nor across countries*"<br><br>Nid yw ymarferoldeb ariannol ond yn un o'r ffactorau sy'n cael eu hystyried. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cadarnhau ei bod yn bwysig bod cyllid ar gyfer addysg yn gost effeithiol. Mae'n rhaid ystyried hefyd nifer y disgyblion, darpariaeth y cwricwlwm, nifer y lleoedd dros ben a chyflwr yr adeilad.<br><br>Mae'r gost fesul disgybl yn Ysgol Dihewyd ac Ysgol Felinfach yn sylweddol uwch na'r gost gyfartalog yng Ngheredigion – mae'r gost fesul disgybl yn Ysgol Dihewyd £1,585 yn fwy na'r gost gyfartalog, ac mae'r gost fesul disgybl yn Ysgol Felinfach £455 yn fwy na'r gost gyfartalog. |
| 7.Gwrthwynebiad | Ymateb y Gwasanaeth Ysgolion |
| Un o'r rhesymau dros gau ysgolion yw diffyg disgyblion, fodd bynnag nodir mai 210 fydd capasiti'r ysgol newydd – o ble y disgwylir i'r holl ddisgyblion hyn ddod?<br><br>Dim awgrym o ran lleoliad oherwydd nid yw wedi'i ddatgelu.<br><br>Cadarnhawyd y darperir cludiant i blant a fydd yn eu casglu o'u cartrefi. | Yn y ddogfen ymgynghori, nodir mai 172 yw nifer y disgyblion a ragwelir erbyn 2023. Caiff pob ysgol newydd ei hadeiladu gydag oddeutu 20% o gapasiti dros ben er mwyn caniatáu ar gyfer twf yn y dyfodol.<br><br>Ni ellir prynu tir i adeiladu ysgol newydd cyn y gwneir penderfyniad terfynol gan y Cyngor llawn.<br><br>Cafodd trefniadau cludiant eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori lle cadarnheir y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cynradd dros 5 mlwydd oed sy'n mynychu eu hysgol agosaf ac |

| | |
|---|---|
| | sy'n byw mwy na 2 filltir i ffwrdd o'r ysgol. Caiff y pellter ei fesur gan ddefnyddio'r llwybr cerdded byrraf rhwng y cartref a'r ysgol, o'r ffordd a gynhelir gan y Cyngor sydd agosaf at gyfeiriad y cartref hyd at y mynediad agosaf i safle'r ysgol. |
| Pa ystyriaeth a roddwyd i fentrau'r Llywodraeth ar gyfer cerdded i'r ysgol? | Darperir llwybr cerdded diogel i'r ysgol yn rhan o'r cynnig. |
| 8.Gwrthwynebiad | Ymateb y Gwasanaeth Ysgolion |
| Mae rhieni wedi cadarnhau y dylent allu dewis anfon eu plant i ysgol fach wledig neu ysgol ardal fawr. Os nad oes ganddynt y dewis hwnnw, byddant yn anfon eu plant i ysgol fach arall neu'n eu haddysgu yn y cartref. | Mae dros 75% o ysgolion Ceredigion wedi'u categoreiddio'n ysgolion bach gwledig. Darperir cymorth ac arweiniad gan yr Awdurdod Lleol i bob rhiant sy'n penderfynu addysgu yn y cartref, fodd bynnag mae'r Cyngor yn credu'n gryf bod plant yn elwa'n fawr o fod mewn amgylchedd ysgol. |
| O'i gymharu ag adeiladau newydd diweddar, ystyrir bod Ysgol Dihewyd eisoes yn addas i'r diben o ddarparu addysg sy'n addas i'r 21ain ganrif. | Mae nodau ac amcanion rhaglen Band B yr 21ain Ganrif fel a ganlyn:<br>• Darparu amgylchedd dysgu i blant a phobl ifanc a fydd yn golygu bod strategaethau ar gyfer gwella ysgolion a sicrhau gwell canlyniadau addysgol yn gallu cael eu gweithredu'n llwyddiannus;<br>• System addysg gynaliadwy drwy ddefnyddio adnoddau'n well er mwyn gwella effeithlonrwydd a chost effeithiolrwydd yr ystâd addysg; |

<table>
<tr><td></td><td><ul><li>Safon Ysgolion yr 21ain Ganrif sy’n lleihau costau rheolaidd, y defnydd o ynni ac allyriadau carbon.</li></ul>Mae ysgol Dihewyd wedi’i lleoli mewn hen adeilad sydd ag effeithlonrwydd ynni gwael. O ganlyniad, nid yw’n cydymffurfio â nifer o nodau ac amcanion rhaglen Band B yr 21ain ganrif.</td></tr>
<tr><td>Yr ysgol yw calon y gymuned, ac mae’n annog y genhedlaeth iau i aros yn yr ardal a symud i mewn i’r ardal, ac mae hyn yn hanfodol i’r economi leol, yr Eglwys, y Capel a neuadd y pentref.</td><td>Cydnabyddir yr integreiddio cymunedol a’r profiadau addysgol amrywiol a geir yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.</td></tr>
<tr><td>Bydd nifer y disgyblion yn parhau i fod yn gyson dros y blynyddoedd nesaf ac ni fydd yn gostwng fel y rhagwelir gan yr awdurdod.
<table>
<tr><td>Nifer y disgyblion ym mis Ionawr 2019</td><td>Nifer y disgyblion ym mis Ionawr 2020</td><td>Nifer y disgyblion ym mis Ionawr 2021</td><td>Nifer y disgyblion ym mis Ionawr 2022</td></tr>
<tr><td>32</td><td>32</td><td>33</td><td>32</td></tr>
</table></td><td>Yn seiliedig ar y ffigurau a ddarparwyd gan yr adran dderbyniadau, a oedd yn cynnwys yr holl ffurflenni derbyn a dderbyniwyd hyd yn hyn a chan ystyried nifer y disgyblion ym mlwyddyn 6 sy’n gadael bob blwyddyn, cytunir ar y ffigurau a ddarparwyd ar wahân i’r rhai ar gyfer mis Ionawr 2022 gan y rhagwelir mai 29 fydd y ffigwr.</td></tr>
<tr><th>9.Gwrthwynebiad</th><th>Ymateb y Gwasanaeth Ysgolion</th></tr>
<tr><td>Mae’r broses ymgynghori’n ddiffygiol gan nad yw wedi cynnig unrhyw ddewis i rieni ac mae eu barn wedi cael ei hanwybyddu’n llwyr. Enghraifft o hyn yw’r ffaith bod safle Felinfach yn parhau i gael ei gynnwys fel opsiwn er i ran fwyaf y rhieni a’r gymuned wrthwynebu hyn.</td><td>Cafodd yr holl opsiynau a gyflwynwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori felly cydnabyddwyd y farn a fynegwyd gan rieni ac aelodau’r gymuned. Mae’n rhaid i’r holl opsiynau a ystyriwyd gael eu cynnwys y ddogfen ymgynghori statudol fel y cadarnhawyd yng nghanllaw Llywodraeth Cymru ‘Cod Trefniadaeth Ysgolion’. Felly cydnabyddwyd y gwrthwynebiadau i ddatblygu safle Felinfach gan fod yr opsiwn hwn wedi’i ddiystyru.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Mae'r cynnig i gau'r ysgol wedi'i gymeradwyo heb gadarnhau'r opsiwn amgen.<br><br>Mae'r ysgol a'r plant yn cael eu hamddifadu o arian, staff a chyfleusterau ar draul eu lles a'u haddysg. | Gwneir y penderfyniad terfynol gan y cyngor llawn – roedd yr opsiwn neu'r cynnig amgen wedi'i gyfleu'n glir yn y ddogfen ymgynghori.<br><br>Mae fformiwlâu yr Awdurdod ar gyfer ariannu ysgolion yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws holl ysgolion y sir. Ariennir pob ysgol yn unol â'r un meini prawf. Dim ond oherwydd ffactorau penodol mewn ysgol mewn unrhyw flwyddyn benodol y bydd amrywiadau. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys nifer y disgyblion, hawl i brydau ysgol am ddim ac anghenion dysgu ychwanegol. |
| 10. Gwrthwynebiad | Ymateb y Gwasanaeth Ysgolion |
| Beth yw'r broses ar gyfer coladu nifer y gwrthwynebiadau?<br><br>Sut fydd y Cyngor yn ymdrin â'r gwrthwynebiadau a'u hystyried? | Cyflwynir nifer y gwrthwynebiadau i'r Cabinet er gwybodaeth yn y lle cyntaf ac yna fe'u cyflwynir i'r Cyngor llawn pan fydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud.<br><br>Caiff y gwrthwynebiadau eu crynhoi mewn adroddiad drafft y bydd angen i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo cyn gweithredu. |
| 11. Gwrthwynebiad | |
| Cefnogir y cynnig mewn egwyddor fodd bynnag mae pryder o hyd oherwydd nad yw'r lleoliad wedi'i gadarnhau. | Bydd yr Awdurdod Lleol yn gallu dod o hyd i safle addas a'i brynu unwaith y rhoddir y gymeradwyaeth derfynol gan y Cyngor llawn. |